Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 17.02.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg: ail ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| At ei gilydd, rydym yn cefnogi'r cynigion yn y Gorchymyn drafft. Mae'n bwysig ei fod yn ofynnol i'r gweithlu addysg cyflogedig cyfan gofrestru, ac rydym yn credu y bydd unrhyw effeithiau negyddol yn cael eu gorbwyso gan effeithiau cadarnhaol diogelu gwell ar gyfer disgyblion a chodi safonau proffesiynol ar draws y gweithlu addysg.<br><br>Rydym wedi nodi ychydig o feysydd a allai gryfhau'r Gorchymyn ymhellach, sef:<br>• Gellid ehangu'r diffiniad o arweinwyr mewn ysgolion annibynnol a'i wneud yn eglur y gallai hyn gynnwys perchennog ysgol.<br>• Gallai'r gofyniad i staff therapiwtig gofrestru os nad ydynt wedi cofrestru gyda chorff proffesiynol arall, fod yn gliriach.<br>• Dylai'r diffiniad o 'weithwyr cymorth dysgu' mewn Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol gynnwys yr aelodau staff hynny a allai weithio yn y lleoliad preswyl ac fel aelod o'r tîm addysg, neu ble mae gan staff efallai fwy nag un rôl fel arall. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru ychwanegol arfaethedig ar gyfer ysgolion annibynnol yn gywir?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| At ei gilydd, mae'r Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru ychwanegol arfaethedig ar gyfer ysgolion annibynnol yn gywir.<br><br>Rydym yn croesawu ychwanegu'r categori ar gyfer y rhai 'sydd **â'r** rôl uwch arweinyddiaeth mewn rheoli'r ysgol'. Fodd bynnag, credwn y gellid ehangu'r categori hwn ymhellach i gynnwys unrhyw staff 'sydd **â** rôl arwain mewn rheoli'r ysgol' oherwydd gallai hyn gynnwys perchennog ysgol annibynnol sydd efallai â rôl mewn arwain dysgu, yn ogystal â phennaeth a allai gael ei benodi yn yr un ysgol. Gallai ychwanegu'r ymadrodd 'yn cynnwys y perchennog, lle bo'n briodol' gryfhau'r categori hwn ymhellach ac atal camddealltwriaeth.<br><br>Yn ychwanegol, rydym yn nodi eto fod staff therapiwtig yn cael eu cyflogi'n fynych gan yr ysgol mewn ysgolion sydd â chyfran sylweddol o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan bob un o'r staff hyn gorff proffesiynol i gofrestru ag ef. Felly, dylid ei gwneud yn glir os nad oes unrhyw gorff proffesiynol penodol i staff therapiwtig gofrestru ag ef, yna rhaid iddynt gofrestru fel gweithwyr cymorth dysgu gyda CGA. |

**Cwestiwn 2** – Ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn egluro'r gofyniad i'r holl benaethiaid mewn ysgolion a gynhelir gofrestru?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod y Gorchymyn drafft yn egluro'r gofyniad i bob pennaeth mewn ysgolion a gynhelir gofrestru gyda CGA, ac yn credu bod hyn yn gam pwysig wrth ddiogelu disgyblion. Yn ychwanegol, mae hyn yn cryfhau'r ddadl ymhellach ar gyfer ehangu categori 'rôl uwch arweinyddiaeth' mewn ysgolion annibynnol yng Nghwestiwn 1. |

**Cwestiwn 3 –** Ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r diwygiadau arfaethedig ar gyfer y sector gwaith ieuenctid yn gywir?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno bod y Gorchymyn drafft sy'n adlewyrchu'r cynnig i gofrestru gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid cymwys a'r rhai sy'n gweithio tuag at y cymwysterau hyn, ac mewn cyflogaeth, yn gywir. Rydym yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â gorfodi cofrestru ar y rhai nad ydynt yn gymwys ar hyn o bryd. |

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno bod y diwygiadau a wnaed i Atodlenni 1 a 2 Gorchymyn 2016 Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu yn y Gwaith) yn cyflwyno rhestr gywir o gymwysterau gweithiwr ieuenctid a gweithiwr cymorth ieuenctid (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ledled y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Er nad ydym mewn sefyllfa i roi sylwadau ar y manylion am yr holl gymwysterau gwaith ieuenctid, rydym yn cytuno y dylid dileu Dyfarniad Lefel 2 o Orchymyn 2016.<br><br>Yn ychwanegol, rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai CGA baratoi a chynnal rhestr o gymwysterau a rhoi gwybod i Weinidogion Cymru bob blwyddyn am unrhyw newidiadau y maent yn eu hystyried yn angenrheidiol. |

**Cwestiwn 5 –** Ydych chi'n cytuno bod y Gorchymyn drafft yn adlewyrchu'r categorïau cofrestru newydd arfaethedig ar gyfer Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol yn gywir?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Er ein bod yn cefnogi'r cynnig hwn i sicrhau modelau rheoleiddio cymaradwy, byddai angen i'r categori cofrestru i gynnwys 'penaethiaid ac athrawon' nodi y dylai hyn gynnwys yr 'arweinydd addysg a / neu hyfforddiant' ac osgoi cynnwys staff sydd ag ychydig iawn o gyfrifoldeb uniongyrchol, os o gwbl, am gyflawni rôl addysgu neu hyfforddi sefydliad.<br><br>Yn ychwanegol, dylai'r categori 'gweithwyr cymorth dysgu' gynnwys yr aelodau staff hynny, yn enwedig mewn Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol a allai weithio yn y lleoliad preswyl ac fel aelod o'r tîm addysg, fel ei gilydd, neu ble mae gan staff fwy nag un rôl, efallai. |

**Cwestiwn 6** – Ydych chi'n cytuno â'r strwythur ffioedd a chymorthdaliadau arfaethedig ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno y dylid trin aelodau o'r gweithlu addysg yn y sector a gynhelir a'r sector annibynnol yn yr un ffordd. |

**Cwestiwn 7** – Ydych chi'n cytuno â'n dadansoddiad o effeithiau posibl y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno mai'r effaith negyddol fwyaf tebygol yw'r gost ychwanegol sy'n cael ei gwario gan y bobl ychwanegol hynny y bydd yn rhaid iddynt gofrestru. Fodd bynnag, rydym yn credu bod hyn yn cael ei orbwyso o bell ffordd gan effaith gadarnhaol diogelu gwell ar gyfer disgyblion. |

**Cwestiwn 8** – Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw newidiadau pellach i'r ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â chofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) y dylid eu hystyried?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn gwybod | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai ein cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gallai cofrestru proffesiynol ar draws y rhan fwyaf o sectorau ddarparu gwybodaeth well am gyfran y gweithlu addysg sy'n gallu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar waith i gynyddu maint y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg. |

**Cwestiwn 10** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y cynigion er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

| |
|---|
| |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐